Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Atodiad 2

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 023/2007
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2007

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Cynulleidfa

Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru; Awdurdodau Lleol; Undebau'r Athrawon; Awdurdodau Esgobaethol Eglwysi; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu diffiniadau a chategorïau o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu ac ym mywyd bob dydd yr ysgol. Bydd y categorïau yn cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am y ddarpariaeth yn genedlaethol, a dylai awdurdodau addysg ac ysgolion eu defnyddio yn lleol er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am y mathau o ysgolion sydd ar gael yn yr ardal. Bydd yr wybodaeth yn helpu llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol i asesu a yw'r ddarpariaeth yn diwallu'r galw yn lleol.

Camau i'w cymryd

Dylai'r categorïau a'r disgrifiadau gael eu cynnwys yn nogfennau derbyn yr Awdurdodau Addysg Lleol ac ym mhrosbectysau pob ysgol unigol o fis Medi 2007 ymlaen. Cesglir data ym mis Ionawr 2008 a 2009 ar sail y categorïau newydd.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Mary Davies
Is-adran Rheolaeth Ysgolion 3
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 1570
Ffacs: 029 2082 6109
E-bost: SMD3@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

I gael copïau ychwanegol, anfonwch e-bost i SMD3@wales.gsi.gov.uk, neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad uchod.

Dogfennau cysylltiedig

Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog

G/287/07-08
ISBN 978 0 7504 4375 3
Hydref
CMK-22-07-239
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	2
Y rheswm dros y diffiniadau newydd	3
Diffiniadau o Ysgolion: Cyflwyniad i'r categorïau	6
Diffiniadau o Ysgolion: y categorïau ar gyfer Ysgolion Cynradd	8
Defnyddio'r Categorïau Cynradd	10
Diffiniadau o Ysgolion: y Categorïau ar gyfer Ysgolion Uwchradd	12
Defnyddio'r Categorïau Uwchradd	14

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Hydref 2007

Rhif dogfen 023/2007

Crynodeb

Mae'r ddogfen wybodaeth hon yn nodi diffiniadau a chategorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir yn gyfrwng addysgu ac yn ystod gweithgarwch arferol yr ysgol. Er nad oes unrhyw sail gyfreithiol i'r diffiniadau, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau y mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y diffiniadau'n cael eu defnyddio at ddibenion ystadegol a bydd angen i ysgolion defnyddio'r diffiniadau newydd a phenderfynu i ba gategori y maent yn perthyn wrth lenwi ffurflenni ystadegol. Bydd y Feddalwedd Rheoli Gwybodaeth Ysgolion a ddefnyddir i baratoi'r datganiadau CYBLD yn hwyluso'r gwaith o gasglu'r wybodaeth hon. Mae'r categorïau yn gwbl annibynnol ar ei gilydd, ac yn rhai y gellir eu cymhwyso mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Caiff data ei gasglu gan ddefnyddio'r categorïau newydd ym mis Ionawr 2008 ac ym mis Ionawr 2009 a bydd data yn dal i gael ei gasglu ar yr un sail ag yn y gorffennol, a hynny er mwyn sicrhau dilyniant ac er mwyn gweld a fydd y categorïau neu'r diffiniadau yn peri unrhyw anawsterau.

Caiff y diffiniadau a'r categorïau newydd eu cynnwys gyda hyn yn y dogfennau derbyn cyfansawdd sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan yr Awdurdodau Addysg Lleol, a byddant yn cael eu cynnwys hefyd ym mhrosbectws pob ysgol. Bydd angen rheoliadau er mwyn gwneud hyn yn orfodol, ond byddai'n well pe bai ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithredu yn hyn o beth cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud.

Y rheswm dros y diffiniadau newydd

Y sefyllfa bresennol a'r diffiniadau presennol o ysgolion

Ar hyn o bryd, caiff ysgolion "Cymraeg" eu diffinio, at ddibenion y cwricwlwm ysgol, yn Adran 105(7) o Ddeddf Addysg 2002 sy'n nodi bod:

> ***"…. ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu'n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg -***
>
> ***(a) addysg grefyddol, a***
>
> ***(b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bynciau sylfaen ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol"***

Diben y diffiniad yw nodi'r ysgolion hynny lle y mae'r Gymraeg yn bwnc craidd ac yn gyfrwng addysgu. Nid yw'n dangos natur y ddarpariaeth ieithyddol ar draws y cwricwlwm ac nid dyna'r bwriad.

Yng **nghyhoeddiadau ystadegol** Llywodraeth Cynulliad Cymru, caiff ysgolion uwchradd eu categoreiddio'n rhai Cymraeg yn unol â'r diffiniad statudol. Mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ysgolion categori A os yw o leiaf hanner y disgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn ysgolion categori B os yw rhai o'r disgyblion, ond llai na hanner ohonynt, mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg neu os yw'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer rhan, ond nid y brif ran, o'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, wrth gasglu ystadegau, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dibynnu ar yr ysgolion eu hunain i roi gwybod iddi i ba gategori y maent yn perthyn. Llywodraeth y Cynulliad sy'n pennu categorïau ysgolion cynradd ar sail yr wybodaeth ar lefel dosbarth a ddarperir gan yr ysgol.

Ym mis Ionawr 2006, roedd 54 o ysgolion uwchradd Cymraeg (o blith cyfanswm o 224), 458 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg categori A a 42 o ysgolion cynradd categori B (o blith cyfanswm o 1555).

Mewn gwirionedd, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth o lawer. Mae'r ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng y naill awdurdod a'r llall ac o'u mewn. Er mai'r Gymraeg yw cyfrwng addysgu pob pwnc neu'r rhan fwyaf o bynciau mewn rai ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae eraill yn darparu gwersi yn

y Gymraeg a'r Saesneg, i raddau helaeth neu o raddau llai, neu mae ganddynt ffrydiau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar wahân. Gellir categoreiddio ysgol uwchradd yn un Gymraeg os yw'r nifer angenrheidiol o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed os mai dim ond cyfran fach o'r disgyblion ar y gofrestr sy'n astudio'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. At hynny, mae nifer yr ysgolion sydd, yn eu hanfod, yn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cynnig mwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac eto, ni chofnodir hyn yn yr ystadegau. Yn aml, mae hyn i'w briodoli i'r ffordd y mae awdurdodau addysg lleol unigol wedi ymateb i'r nod o sicrhau bod disgyblion sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl, ac mae'n ymwneud hefyd â natur ieithyddol yr ardaloedd dan sylw.

Yr angen am y diffiniadau newydd, a'u diben

Mae'r AALlau yn defnyddio amryfal ddisgrifyddion ar gyfer yr ysgolion lle y mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ac nid yw'r rhain yn gyson â'i gilydd. Mae ysgolion ac AALlau yn defnyddio labeli fel 'cyfrwng Cymraeg', 'dwyieithog', 'traddodiadol Gymraeg' a 'naturiol Gymraeg' i ddisgrifio'u darpariaeth. Mae'n anodd weithiau i rieni ddeall yn llawn i ba raddau y mae ysgolion unigol yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac i ba raddau y mae hwn yn fater o ddewis y rhieni yn achos disgyblion unigol. Mae hefyd yn anodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro faint o addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei darparu.

Yn ei gyfraniad at yr adolygiad cynhwysfawr o'r iaith Gymraeg a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2001 a 2002, cadarnhaodd Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad fod angen set o ddiffiniadau y cytunwyd arnynt ac sy'n hawdd eu hadnabod ar gyfer y modelau gwahanol o ddarpariaeth ieithyddol sydd ar gael yn ysgolion Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen gwneud hyn at y dibenion canlynol:

- er mwyn pennu amcanion clir ar gyfer addysgwyr a disgyblion mewn perthynas â chanlyniadau ieithyddol
- er mwyn rhoi gwybodaeth glir i rieni a'u plant am y dewisiadau sydd ar gael
- er mwyn helpu'r AALlau i ddatblygu ac i gydgysylltu eu strategaeth ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan gynnwys cynllunio adnoddau a recriwtio staff;

- er mwyn mynd ati'n systematig i werthuso cryfderau a gwendidau'r modelau gwahanol o addysgu iaith o'u cymharu â'i gilydd.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at waith a ddechreuwyd gan grŵp o arbenigwyr o dan Gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel man cychwyn.

Yn ei dogfen bolisi "Iaith Pawb", a gyhoeddwyd yn 2003, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod diffinio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion yn flaenoriaeth. Nodwyd hefyd ei bod bwriadu ymgynghori â'r AALlau ac eraill gyda golwg ar gytuno ar ddiffiniadau y gellid eu defnyddio mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Ers cyhoeddi "Iaith Pawb", mae sawl cyfarfod ymgynghori wedi ei gynnal o dan arweiniad Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth y Cynulliad, gan ddefnyddio gwaith y grŵp o arbenigwyr fel man cychwyn. Roedd nifer o'r AALlau, Estyn ac ELWa yn rhan o'r cyfarfodydd hyn. Yn sgil y trafodaethau hyn, penderfynwyd ar ddau fodel posibl y gellid eu defnyddio i ddiffinio ysgolion yn ôl yr iaith sy'n gyfrwng addysgu. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang yn 2006.

Daeth ymatebion i law oddi wrth ysgolion, awdurdodau lleol, cymdeithasau athrawon a grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y dylid treialu diffiniadau newydd ochr yn ochr â'r diffiniadau ystadegol presennol am gyfnod o 2 flynedd.

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: Cyflwyniad i'r categorïau newydd

1. Mae'r categorïau isod yn diffinio ysgolion cynradd ac uwchradd (ar gyfer y cyfnod y mae addysg yn orfodol) fel a ganlyn:

i. y cyfrwng addysgu ym mhob cyfnod allweddol: h.y. canran y cwricwlwm (cynradd) a chanrannau'r pynciau (uwchradd) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;

ii. yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion y tu allan i'r cwricwlwm, ethos yr ysgol, yr iaith a ddefnyddir yn yr ysgol o ddydd i ddydd, a'r iaith/ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â'r rhieni; ac

iii. y canlyniadau arferol a ddisgwylir ar gyfer disgyblion sy'n mynychu pob math o ddarpariaeth o ran eu datblygiad addysgol.

2. Nid yw'r diffiniadau'n ceisio mynd ati i bennu yn union yr hyn y gallai disgyblion unigol ei gael yn yr ysgol. Caiff yr Awdurdodau Addysg Lleol ddefnyddio'r diffiniadau yn y prosbectysau derbyn cyfansawdd a anfonir at rieni bob tymor yr hydref cyn gynted â phosibl ar ôl mis Medi **2007**. Er mwyn rhoi gwybodaeth lawn i rieni am y dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion unigol, dylai cyrff llywodraethu roi mwy o fanylion ym mhrosbectysau ysgolion unigol. Os yw ysgolion yn cynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac os yw disgyblion yn cael dewis y naill neu'r llall ohonynt, dylai'r prosbectysau esbonio pa rag-amodau sy'n gysylltiedig â'r dewis hwnnw, gan nodi hefyd faint o ddisgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall. Bydd y Rheoliadau sy'n pennu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y prosbectws cyfansawdd ac ym mhrosbectysau ysgolion unigol yn cael eu diwygio er mwyn dod â'r newid hwn i rym o **2008** ymlaen, ond byddai o gymorth i ni pe bai ysgolion ac awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r arfer newydd hwn yn **2007** pe bai modd.

3. Diffinnir pum categori ar gyfer ysgolion cynradd a lle y bo hynny'n briodol, gwahaniaethir rhwng y Cyfnodau Allweddol o fewn y diffiniadau. Nid ystyrir bod y trydydd categori (trawsnewidiol), sy'n gyfrwng Cymraeg yn bennaf ond lle y mae defnydd sylweddol o Saesneg, yn fodel priodol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn hyddysg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni ddisgwylir, felly, y bydd yn gymwys i lawer o ysgolion, ond mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion sydd wrthi'n newid i Gategori 1 neu 2 ac sy'n ceisio cynnig mwy o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y categori hwn dros dro.

4. Bwriedir cyflwyno pedwar categori ar gyfer ysgolion uwchradd, ac mae un categori (ysgol ddwyieithog) wedi ei rannu'n 4 is-grŵp.

5. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion, fel rheol, yn bodloni'r rhwymedigaethau mewn Cynlluniau Addysg Gymraeg a gymeradwywyd.

6. O fis Ionawr 2008 ymlaen, bydd yn ofynnol i ysgolion nodi yn eu datganiadau CYBLD blynyddol pa gategori sydd yn **fwyaf priodol** ar eu cyfer hwy. Dylai ysgolion fynd ati'n bennaf i ddiffinio'u hunain yn ôl yr agweddau ar y diffiniad sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae'n bosibl na fydd "iaith yr ysgol" a'r agweddau sy'n gysylltiedig â "chanlyniadau" yn cyfateb i'w gilydd bob tro. Os bydd angen, ceir rhoi esboniad o'r agweddau hyn yn y datganiad, a dylid cynnwys yr esboniad hwnnw ym mhrosbectws yr ysgol hefyd. Bydd ysgolion babanod ac ysgolion iau yn defnyddio'r elfennau priodol o'r diffiniadau ar gyfer ysgolion cynradd sy'n ymwneud â CA1 (y Cyfnod Sylfaen) a CA2 i ddiffinio eu categorïau hwy.

7. Er mwyn treialu'r dull newydd at ddibenion ystadegol heb beryglu dilyniant y data, bydd ysgolion yn parhau hefyd i gofnodi eu darpariaeth yn yr hen ffordd am y 2 flynedd nesaf (h.y. ym mis Ionawr 2008 a mis Ionawr 2009). Bydd hyn yn caniatáu i ni ddatrys unrhyw broblemau difrifol gyda'r dull newydd o gategoreiddio cyn iddo ddisodli'r categorïau ystadegol presennol, os bernir, ar ôl monitro'r cyfnod treialu, mai dyna fyddai'n briodol.

Rhestr Cyfeirio

Camau i'w cymryd	Pwy ddylai eu cymryd	Erbyn pa ddyddiad
Cynnwys y categorïau a'r diffiniadau yn y dogfennau derbyn cyfansawdd	Yr Awdurdodau Lleol	O fis Medi 2007 ymlaen
Cynnwys y categorïau a'r diffiniadau mewn prosbectysau ysgolion	Llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir	O fis Medi 2007 ymlaen
Cynorthwyo ysgolion i nodi'r categori cywir at ddibenion casglu data	Yr Awdurdodau Lleol	O fis Medi 2007 ymlaen
Nodi'r data ar ei ffurf ddiwygiedig ar System Rheoli Gwybodaeth yr ysgol cyn y broses flynyddol o gasglu data	Pob ysgol a gynhelir	O fis Medi 2007 ymlaen (cynhelir CYBLD mis Ionawr 2008 ar 15 Ionawr 2008)

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
Hydref 2007
Rhif dogfen 023/2007

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: y Categorïau ar gyfer Ysgolion Cynradd

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, ni waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, yn erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd

Y cwricwlwm - Mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. Mae'r rhieni/disgyblion yn dewis naill ai'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori 1, neu'r ddarpariaeth sy'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a gyflwynir yn yr un modd ag yng nghategori 5.

Iaith yr Ysgol - Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Natur y ddarpariaeth gwricwlaidd sy'n pennu ym mha iaith y cyfathrebir â'r disgyblion, ond mewn rhai ysgolion, rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer categori 1. Ar gyfer y disgyblion hynny sydd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer categori 5.

3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Defnyddir y naill iaith a'r llall i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir

mwy o bwyslais ar y Gymraeg, sy'n gyfrwng addysgu ar gyfer dros hanner a hyd at 70% o'r cwricwlwm.

(Dim ond dros dro y byddai ysgolion yn y categori hwn fel arfer)

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd rhai o'r disgyblion, yn enwedig y rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y bydd pob disgybl, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, wedi cyrraedd yr un safon yn y Saesneg â'r safon a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Y cwricwlwm - Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg wrth addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer 20% - 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol.

Iaith yr Ysgol - Cyd-destun ieithyddol yr ysgol sy'n pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Disgwylir y bydd y disgyblion, fel rheol, yn mynd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, ond y bydd ganddynt gwell sgiliau o safbwynt y Gymraeg fel ail iaith. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r disgyblion yn gallu dilyn nifer bach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar y lefel uwchradd os yw'r dewis hwnnw ar gael.

5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Y cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Saesneg yw'r prif gyfrwng addysgu yn CA2. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith yn CA2, ac mae'n bosibl y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Iaith yr Ysgol - Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, gan ddysgu Cymraeg fel ail iaith.

Defnyddio'r Categorïau Cynradd

(i) Casglu Data

Y categorïau hyn a ddefnyddir wrth gasglu data o fis Ionawr 2008 ymlaen. Mae'r categorïau data ar gyfer casglu gwybodaeth am ysgolion cynradd yn cyfateb i'r categorïau cynradd. Bydd y Feddalwedd Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (MIS) a ddefnyddir wrth baratoi datganiadau CYBLD yn gallu cofnodi gwybodaeth am nodweddion ieithyddol ysgolion. Bydd ysgolion cynradd yn dewis o blith 5 categori posibl, a fydd yn cyfateb i'r disgrifiadau a geir ar y tudalennau blaenorol. Nodir y categorïau cyfatebol yn y cromfachau petryal wrth ymyl y teitlau a fydd i'w gweld yn Systemau Rheoli Gwybodaeth yr ysgolion. Ni fydd angen i'r ysgolion cynradd gymryd unrhyw gamau eraill wrth lenwi'r datganiad CYBLD. Mae'r categorïau fel a ganlyn:

Cyfrwng Cymraeg [WM] [Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg]

Ddwy Ffrwd [DS] [Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd]

Trawsnewidio [TR] [Ysgol Gynradd Drawsnewidiol: cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg]

Saesneg (â defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [EW] [Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg hefyd]

Cyfrwng Saesneg [EM] [Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf]

(ii) Prosbectysau Ysgolion ac AALlau

Dylai llywodraethwyr ysgolion ddefnyddio'r categorïau a'r diffiniadau i ddisgrifio'r ysgol ym mhrosbectws yr ysgol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Yn achos ysgolion cynradd, dylid defnyddio'r diffiniadau yn y prosbectws unigol, gan roi esboniad ychwanegol os oes angen, yn enwedig yn achos yr ysgolion hynny lle y mae dwy ffrwd. Dylai'r prosbectws fanylu ar gyfran y cwricwlwm sy'n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi i ba raddau y ceir dewis cyfrwng yr addysgu ac a oes unrhyw hyblygrwydd yn hynny o beth. Yn achos ysgolion dwy ffrwd, dylid nodi nifer y disgyblion ym mhob ffrwd gan y bydd hyn, yn aml, yn dylanwadu ar ethos cyffredinol yr ysgol ac ar yr iaith a ddefnyddir o ddydd i ddydd. Mae'n bosibl y bydd cofnodi'r wybodaeth hon o gymorth i fonitro'r twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol dros gyfnod penodol.

Dylai'r AALlau sicrhau bod y categorïau, y diffiniadau, a'r wybodaeth y mae llywodraethwyr yn eu darparu am ysgolion unigol yn cael eu cynnwys yn y dogfennau derbyn cyfansawdd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gan lywodraethwyr gynorthwyo'r awdurdodau i fonitro twf a galw.

Disgwylir y bydd y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn cael eu diwygio er mwyn ei gwneud yn orfodol i'r diffiniadau gael eu defnyddio mewn prosbectysau a dogfennau derbyn cyfansawdd o 2008 ymlaen.

Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: y Categorïau ar gyfer Ysgolion Uwchradd

1. Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

Y cwricwlwm - Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 cyfrwng Cymraeg.

2. Ysgol Uwchradd Ddwyieithog

Y cwricwlwm - Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i'r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.

Categori 2A - Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

Categori 2B - Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2C - Addysgir 50 - 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2CH - Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall.

Iaith yr Ysgol - Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Ar gyfer disgyblion yng nghategorïau 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwyg gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Y cwricwlwm - Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 - 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Iaith yr Ysgol - Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y gallai'r disgyblion hynny sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl 16.

4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Y cwricwlwm - Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg

fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

Iaith yr Ysgol - Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

Y canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16.

Defnyddio'r Categorïau Uwchradd

(i) Casglu Data

Caiff y categorïau hyn eu defnyddio wrth gasglu data CYBLD o fis Ionawr 2008 ymlaen. Mae'r categorïau data ar gyfer casglu gwybodaeth ysgolion uwchradd yn cyfateb i'r categorïau uwchradd, ac mae'r categori dwyieithog wedi ei rannu'n 4 at ddibenion casglu data. Bydd y Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion a ddefnyddir i baratoi'r datganiadau CYBLD yn gallu cofnodi gwybodaeth am nodweddion ieithyddol ysgolion. Bydd ysgolion uwchradd yn dewis o blith 7 categori posibl, sy'n cyfateb i'r disgrifiadau a geir ar y tudalennau blaenorol. Nodir y categorïau cyfatebol mewn cromfachau petryal wrth ymyl y teitlau a fydd i'w gweld ar y ffurflen casglu data. Bydd yn rhaid i ysgolion uwchradd ddefnyddio'r categorïau presennol a'r rhai newydd i ddisgrifio eu hunain. Mae'r categorïau newydd fel a ganlyn:

Cyfrwng Cymraeg [WM]	[Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg]
A Dwyieithog [AB]	[Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Categori 2A - Mae o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.]

B Dwyieithog [BB]	[Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Category 2B - Mae o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.]
C Dwyieithog [CB]	[Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Categori 2C - Mae 50 - 79% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.]
Ch Dwyieithog [CH]	[Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Categori 2Ch - Mae pob pwnc, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn cael eu dysgu i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall.]
Saesneg (ond â defnydd Sylweddol o'r Gymraeg) [EW]	[Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg: mae 20-49 % o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.]
Cyfrwng Saesneg [EM]	[Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf lle y gellir dewis dysgu 1 neu 2 o bynciau, o bosibl, drwy gyfrwng y Gymraeg.]

(iii) Prosbectysau Ysgolion ac AALlau

Dylai llywodraethwyr ysgolion ddefnyddio'r categorïau a'r diffiniadau i ddisgrifio'r ysgol ym mhrosbectws yr ysgol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

Yn achos ysgolion uwchradd, dylai'r prosbectws unigol ddefnyddio'r diffiniadau a rhoi esboniad ychwanegol os oes angen, yn enwedig yn achos ysgolion dwyieithog. Ym mhob achos, dylai'r prosbectws nodi'n fanwl pa bynciau sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ba raddau y mae'r pynciau hynny hefyd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg. Dylai'r prosbectws nodi'n glir i ba raddau y ceir

dewis y cyfrwng addysgu, a oes unrhyw rag-amodau, a chynnwys gwybodaeth am nifer y disgyblion sydd wedi dewis pob opsiwn. Yn achos ysgolion dwyieithog, lle rhennir disgyblion yn ffrydiau, dylid nodi nifer y disgyblion ym mhob ffrwd gan y bydd hyn, yn aml, yn dylanwadu ar ethos cyffredinol yr ysgol ac ar yr iaith a ddefnyddir o ddydd i ddydd. Mae'n bosibl y gallai cofnodi'r wybodaeth hon fod o gymorth wrth fonitro'r twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol dros gyfnod penodol.

Dylai'r AALlau sicrhau bod y categorïau, y diffiniadau a'r wybodaeth y mae llywodraethwyr yn eu darparu am ysgolion unigol yn cael eu cynnwys yn y dogfennau derbyn cyfansawdd cyn gynted ac y bo hynny'n ymarferol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gan lywodraethwyr gynorthwyo'r awdurdodau i fonitro twf a galw. Dylai gwybodaeth am amserlenni hefyd helpu'r awdurdodau i fonitro twf y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Disgwylir y bydd y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn cael eu diwygio er mwyn ei gwneud yn orfodol i'r diffiniadau gael eu defnyddio mewn prosbectysau ac mewn dogfennau derbyn cyfansawdd o 2008 ymlaen.